# Y Dinesydd

**Mai 2013 Rhif 377** **Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch** **Pris: 80 ceiniog**


# MARATHON LLUNDAIN

**Dafydd Loughran o'r Rhath, sy'n gweithio fel doctor yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Llantrisant**

Yng nghysgod trychineb Boston ond wythnos yn gynt mae'n siŵr i nifer fel fi gwestiynu'r 26.2 filltir yr oeddem oll, 35 mil ohonom, ar fin rhedeg ar hyd strydoedd Llundain. Gyda'r 30 eiliad o dawelwch perffaith er cof am y tri a laddwyd a'r cannoedd eraill a anafwyd, roedd atsain Boston yn amlwg yn canu'n gryf yng nghalonnau pob rhedwr tra oeddem yn sefyll wrth y llinell gychwyn.

Mae tri pheth sy'n gwneud bod yn rhan o farathon mawr yn brofiad mor unigryw o ffantastig. Yn gyntaf mae'r gefnogaeth. Anhygoel yw'r wefr wrth i bron i filiwn ar hyd strydoedd y daith weiddi ein henwau wrth i ni lusgo heibio, pob un yn ein hannog gam wrth gam i'r llinell derfyn. Yn ail mae'r elusennau a'r storïau tu ôl i bob un. Yn wir, fy atgof cryfaf o farathon Caeredin, yr un cyntaf i mi ei brofi, oedd i mi redeg gyda deigryn yn fy llygad am y rhan fwyaf o'r ffordd. A hynny oherwydd y negeseuon er cof ar gefnau'r miloedd o'm hamgylch. Yn olaf mae'r teimlad o undod rhwng pob cenedl, tras, a chrefydd. Pob rhedwr yn rhannu un pwrpas, ac roedd hyn yn fwy amlwg byth yn dilyn digwyddiadau'r penwthnos cynt.

*Parhad ar dudalen 2*




*Dafydd yn wên o glust i glust!*

## HWB DIGIDOL AR-LEIN I GAERDYDD

Yn dilyn cyfarfod cyffrous yn Chapter nos Lun, 8 Ebrill, mae'r Dinesydd, mewn partneriaeth â Menter Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd, yn bwriadu datblygu gwefan newydd fydd yn hwb cymunedol i'r Brifddinas. Ar ôl trafodaeth yng nghwmni nifer o gymdeithasau ac unigolion sy'n arbenigo ac yn ymddiddori yn y maes digidol, bydd y prosiect yn symud ymlaen trwy greu tîm golygyddol a chyfranwyr newydd.

Y bwriad yw datblygu cymuned ar-lein a fydd yn ffynhonnell o wybodaeth ryngweithiol fywiog a pherthnasol i fywyd bob dydd yng Nghaerdydd.

Ni fydd y wefan yn disodli'r Dinesydd printiedig – sy'n dathlu 40 mlynedd o fodolaeth eleni – ond yn creu cyfrwng fydd yn adlewyrchu holl fwrlwm y Brifddinas drwy apelio at gynulleidfa newydd ac ehangach.

Dywedodd Sara Moseley, sy'n arwain y Ganolfan Newyddiaduraeth Gymunedol, "Hoffem ddiolch i Is-Ganghellor newydd y Brifysgol, yr Athro Colin Riordan, am ei gefnogaeth ariannol a'i awydd i ddatblygu cysylltiadau â phrosiectau lleol fel y Dinesydd digidol".

Os hoffech wybod mwy neu gyfrannu, cysylltwch â Siân Lewis, Menter Caerdydd: 02920 689888/ SianLewis@MenterCaerdydd.org
neu Bryan James, Y Dinesydd: 02920 566731 / db.james@ntlworld.com

# Y Dinesydd


Golygydd y rhifyn hwn:
**Richard Lewis**

Golygydd y rhifyn nesaf:
**Eleri Melhuish**

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Mehefin erbyn 27 Mai i:
15 Erw Las, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1NL
Ffôn: 07877264727
eleri_melhuish@hotmail.com

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd. CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Bryan James
52 Highfields, Llandaf, Caerdydd CF5 2QB
029 20 566731
db.james@ntlworld.com

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur
Caerdydd, CF15 8RL
cartref: 029 20842811
symudol: 07985 174997

Gwefan Y Dinesydd:
www.dinesydd.com

Cyhoeddir y Dinesydd gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.**


## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**SIOP PRIFYSGOL CYMRU**, 12 Stryd Fawr
**CABAN**, Pontcanna
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**VICTORIA FEARN GALLERY**, Rhiwbeina
**HALLS**, Llandaf
**HALCYON DAZE**, Wellfield Road
**SIOP LYFRAU WINDSOR**, Penarth
**FOOD FOR THOUGHT**, Y Barri
**COFFEE LOUNGE**, Llanisien

## MARATHON LLUNDAIN

*Parhad o dudalen 1*

Wedi i mi dreulio haf 2012 yn gweithio fel doctor mewn ysbyty yn Lesotho yn Ne Affrica roedd un elusen roeddwn yn awyddus iawn i'w helpu mewn unrhyw fodd posib. Dolen Cymru oedd yr elusen honno. Wrth weld effaith HIV/AIDS yn y wlad sylweddolais bwysigrwydd anhygoel Dolen Cymru i greu cysylltiadau rhwng Lesotho a Chymru. Mae'r doctoriaid ac athrawon o Gymru sy'n gwirfoddoli allan yna yn hanfodol er mwyn cynnal y cyfleusterau iechyd ac addysg trwy'r argyfwng HIV. Dychmygwch tasai Cymru yn colli canran helaeth o bawb sydd o oedran gweithio i feirws. Feirws sy'n hawdd ei drin tasai ond yr ychydig bunnoedd ar gael i dalu am y tabledi. Dyna sydd wedi digwydd, ac sy'n dal i ddigwydd, yn Lesotho.

Gyda Lesotho a Boston yn fy ngwthio heibio i balas Buckingham cyrhaeddais y llinell derfyn mewn tair awr a phum deg munud heb ronyn pellach o egni yn fy nghorff! Ond dyw'r sgidie rhedeg ddim yn mynd nôl yn y bocs cweit eto, ma' na farathon arall i'w redeg! Ar ôl wythnos o ymlacio bydda' i nôl ar yr hewl yn ymarfer ar gyfer marathon Stockholm mewn 6 wythnos, dwn i'm pam o'n i'n meddwl bod hwnna'n syniad da!

Os hoffech wybod mwy am Dolen Cymru, neu i wneud cyfraniad ewch i https://mydonate.bt.com/fundraisers/dafydd. Mae pob rhodd wir yn gwneud gwahaniaeth enfawr. Diolch.

# Crys Rhyngwladol Grav yn codi £400 i Ysbyty Plant Cymru

Cafodd y crys ei gyflwyno gan deulu Jim Parcnest a dywedodd: "Pan oedd fy mab, Bedwyr, yn ei flwyddyn olaf yn Ysgol Gynradd y Dderwen, Caerfyrddin, enillodd gystadleuaeth arlunio ar raglen deledu Miri Mawr. Y wobr oedd y crys rhyngwladol a wisgodd Grav yn ei ail gêm dros Gymru, sef y gêm yn erbyn Lloegr, Chwefror 1975. Daeth Grav i'r stiwdio i gyflwyno'r crys i Bedwyr. Ar ôl gwerthu'r crys yn Eisteddfod y Mochyn ym mis Mawrth eleni, dymuniad Bedwyr yw rhoi'r elw i Ysbyty Plant Cymru."

Codwyd £400 yn yr arwerthiant, a bydd crys Grav yn cael ei arddangos gyda balchder yn ei gartref newydd, sef y Mochyn Du yng Nghaerdydd.




Yn y llun: Huw Llywelyn Davies (yr Arwerthwr a Llywydd Eisteddfod y Mochyn Du), Jim Parcnest a Gareth Huws o'r Mochyn Du yn cyflwyno'r siec am £400 i Jasmine Ahearn o Apêl Arch Noa / Ysbyty Plant Cymru.

***Tim Powell***

# Cymrodorion Caerdydd

Daeth tymor presennol Y Cymrodorion i ben nos Wener 26 Ebrill gyda darlith gyhoeddus gan yr Athro Richard Wyn Jones yn neuadd Eglwys Dewi Sant. Teitl y ddarlith oedd 'Cyfansoddiad Cymru'. Cafodd y gynulleidfa luosog ddadansoddiad meistrolgar a diddorol o'r modd mae cyfansoddiad Cymru wedi esblygu'n raddol ers saith degau'r ugeinfed ganrif. Proses oedd (ac yw) hon y gellir ei disgrifio fel un gymhleth, arbrofol, ansefydlog ac annigonol meddai'r darlithydd.

Bwriad refferendwm 1979 a 1997 oedd cynnig 'cyngor sir mawr' nid 'senedd fechan' i Gymru, ond unwaith y daeth y Cynulliad Cenedlaethol i fodolaeth dechreuwyd ar y gwaith o osod strwythurau seneddol iddo. Gyda refferendwm 2011 gwelwyd y Cynulliad yn ymffurfio'n senedd. Strwythur seneddol ar lun yr hyn oedd yn cael ei gynnig i'r Alban yn 1979 yw un presennol y Cynulliad, fodd bynnag, ac mae gwendidau amlwg ynddo. Y cam nesaf, meddai Richard Wyn Jones, yw sicrhau trefn lle mae'r cyfansoddiad yn enwi'r meysydd sydd y tu allan i alluoedd y Cynulliad yn hytrach na'r drefn bresennol sy'n enwi'r meysydd sydd o'u mewn. Byddai hynny'n ei gwneud yn anos i osod rhwystrau ar allu'r Cynulliad i ddeddfu, a gwneud ei weithgareddau'n fwy effeithiol.

Y prif reswm pam fod datblygiad cyfansoddiadol mor anodd yng Nghymru yn ôl yr Athro Jones yw bod gwleidyddiaeth ddemocrataidd Cymru yn cael ei dominyddu gan un blaid, y Rhyddfrydwyr yn wreiddiol, a bellach gan y Blaid Lafur. Ond nid yw'r blaid honno'n unedig ar gwestiwn datganoli: mae tensiwn parhaus o'i mewn, gyda'r pleidiau llai yn cefnogi'r naill garfan neu'r llall (Rhyddfrydwyr Democrataidd a Phlaid Cymru yn cefnogi'r datganolwyr a'r Ceidwadwyr yn cefnogi'r gwrth-ddatganolwyr). Fodd bynnag, mae tystiolaeth Llywodraeth Cymru i Gomisiwn Silk yn adeiladol ac yn radical a gallwn edrych ymlaen at ddatblygiad pellach yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Llywyddwyd gan Dr Wyn James a diolchwyd i'r darlithydd gan Gwynn Matthews.

**Gwefan Y Dinesydd:**
**www.dinesydd.com**

# Merched y Wawr Bro Radur

Croesawodd Llywydd y noson, Meri Griffiths, ein siaradwr gwadd, Arwel Gruffydd, Cyfarwyddwr Artistig Theatr Genedlaethol Cymru. Siaradodd am ei waith ac am gynyrchiadau cyfredol Gwanwyn a Haf y cwmni. Soniodd Arwel wrth gyhoeddi rhaglen am y misoedd i ddod fod hyn yn arwydd o gyfeiriad newydd ac uchelgais creadigol y cwmni. Mae hyn yn adlewyrchu rhai o brif amcanion ac ymrwymiadau'r Theatr sef - cymunedau Cymru; yr hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl; clasuron ein llen; ysgrifennu newydd; cefnogi a datblygu sgiliau ymarferwyr ac ehangu gorwelion theatr Gymraeg a photensial y cyfrwng. Edrychwn ymlaen at yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych ym mis Awst pan fydd Rhwydo/ Vangst, darn o theatr gorfforol o'r Iseldiroedd, yn perfformio addasiad Cymraeg o'r gwaith gan Roos Van Geffen. Cawsom noson ddiddorol iawn a chyfle i ymateb i gynhyrchiad diweddar yn y Sherman. Dyled Eileen.

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Yn ein cyfarfod ar 15 Ebrill yn Festri Bethany, croesawodd Falmai, ein cadeirydd, aelod newydd i'n plith, Jean Moelwyn Hughes. Roedd yn dda gweld Jeff James nôl gyda ni ar ôl cyfnod hir o salwch. Llongyfarchwyd Beryl a Wynne Thomas ar enedigaeth wyres fach arall. Roedd yn sioc clywed am farwolaeth Helen Williams a fu'n aelod ffyddlon o'r Gymdeithas. Clywsom gan Falmai drefniadau taith tridiau'r Gymdeithas i Landudno ar y 3ydd o Fehefin. Bydd yr ymweliad yn cynnwys siwrne i weld llun gwreiddiol Salem gan Curnow Vosper yn Port Sunlight ac ymweliad â Lerpwl dan arweiniad y Parchedig D. Ben Rees.

Y siaradwr gwadd oedd ficer Eglwys Dewi Sant, y Parchedig Dyfrig Lloyd, a olrheiniodd hanes ei daith o fagwraeth capel yn Llansaint i offeiriadaeth yr Eglwys yng Nghymru. Bu'n gweinidogaethu ym mhlwyfi Llandysul a Llanddewi Brefi cyn ymgartrefu yn ein plith ni yng Nghaerdydd.

Byddwn yn cyfarfod y tro nesaf yng Nghapel Bethel, Heol y Deri, ar 20 Mai a bydd Côr Aelwyd y Waun Ddyfal yn ein diddanu. Pris y tocyn yw £5 a bydd elw'r noson yn mynd at elusen y flwyddyn, Shelter Cymru.

## www.tafwyl.org

Mae gwefan newydd Tafwyl nawr yn fyw! Am y wybodaeth ddiweddaraf am yr Ŵyl yn y Castell a gweithgareddau'r wythnos – ewch draw i weld beth fydd yn mynd ymlaen! Cofiwch hefyd fod modd dilyn Tafwyl ar Twitter a Facebook am y newyddion diweddaraf!

## Howard Marks - Tocynnau ar werth nawr

Prin nad oes angen cyflwyniad i'r gŵr hwn o Kenfig Hill ger Pen-y-bont ar Ogwr, sydd heb os yn mynd i fod yn un o uchafbwyntiau ffair Tafwyl eleni. Carcharwyd Marks yn yr Unol Daleithiau am saith mlynedd yn y 90au ar ôl cael ei ddal yn smyglo cyffuriau. Ond mae'n cael ei adnabod yn bennaf fel cymeriad hoffus, sydd wedi llwyddo i hudo cynulleidfaoedd gyda'r straeon anturus yn ei gyfrolau bywgraffyddol *Mr Nice* a *Seor Nice* . Yn 2010 rhyddhawyd ffilm am ei fywyd, Mr Nice, gyda Rhys Ifans yn actio Marks. Yn ddiweddar mae Howard Marks wedi teithio gwyliau dros y byd yn sôn am ei fywyd, a bydd yn bleser ei groesawu yn ôl i Gymru lle bydd y comedwr Daniel Glyn yn sgwrsio ag o yng Ngŵyl Tafwyl ar 15fed o Fehefin yng Nghastell Caerdydd. Mae'r tocynnau, sy'n £5, ar gael nawr ar wefan Menter Caerdydd - mentercaerdydd.org. Trefnir mewn cydweithrediad â Llenyddiaeth Cymru.

## 'Bake off' Tafwyl

**Castell Caerdydd / 15.06.06**

Hoffi pobi? Mwynhau rhaglen The Great British Bake Off? Beth am gystadlu yn Bake Off cyntaf Tafwyl? Bydd tri chategori ar gyfer cystadlu:

1) O dan 11: Pobi ac Addurno 6 o Gacennau Bach (£2 i gystadlu)
2) O dan 16: Pobi ac Addurno 6 Cupcake (£2 i gystadlu)
3) Oedolion: Pobi ac Addurno Cacen Sbwng 2 haen neu fwy (£3 i gystadlu)

Y beirniaid fydd Elliw Gwawr, Nerys Howell ac Anthony Evans a'r wobr ar gyfer pob categori fydd 2 docyn i weld sioe newydd Complicite, Lionboy, yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, 3 Gorffennaf, 7.30pm. www.wmc.org.uk/lionboy. Bydd angen i chi ddod â'ch cacennau i'r Castell erbyn 11am ar ddiwrnod yr Ŵyl. Cofrestrwch i gystadlu ar wefan Menter Caerdydd www.mentercaerdydd.org cyn 3ydd Mehefin.

## Twitter, Facebook a You Tube

Cofiwch fod gan y Fenter gyfrifon Twitter, Facebook ac You Tube, ac rydym yn diweddaru'r tudalennau'n aml, felly mae'n ffordd hawdd o glywed am yr holl newyddion diweddaraf.

## Cyrsiau Hyfforddiant i Oedolion

Bydd y cyrsiau hyfforddiant isod yn cael eu cynnal cyn diwedd tymor yr haf. Am fwy o fanylion am y cyrsiau newydd neu'r rhaglen hyfforddiant, ewch i wefan Menter Caerdydd neu cysylltwch ag Angharad Thomas – angharad@mentercaerdydd.org / 2068 9888

**Iaith ar Waith yn y Dosbarth** (21 a 28.06 a 05.07)

Cwrs 3 diwrnod i wella Sgiliau ac Ymwybyddiaeth Ieithyddol ar gyfer cynorthwywyr dosbarth. Achredir y cyrsiau trwy Agored Cymru a chynigir 3 chredyd i bawb sy'n cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus sef Cyfarch Plant Bach, Canu gyda Phlant Bach a Gorchmynion. Cynhelir y sesiynau ar y cyd rhwng Menter Caerdydd a Chanolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg, Prifysgol Caerdydd.

**Proffesiynoldeb yn y Gweithle** (27.06)

Cwrs diwrnod i gynorthwywyr dosbarth fydd yn canolbwyntio ar ddisgwyliadau yn y gweithle fel agweddau cadarnhaol, ymddygiad a sgiliau priodol. Darperir y cwrs gan Gwmni Hyfforddi Whitegate.



*Dosbarth Bygi Heini newydd Menter Caerdydd sy'n cwrdd yn wythnosol ar Gaeau Llandaf*

menter@caerdydd.org

menter caerdydd

# Caerdydd

## Cwis y Mochyn Du

Bydd cwis yn cael ei gynnal Nos Sul, Mai 26 yn y Mochyn Du am 8pm. £1 y pen. Mae croeso cynnes i bawb! Cofiwch fod y cwis ar Nos Sul olaf bob mis!

## Holiadur Gwasanaethau Menter Caerdydd

Diolch yn fawr iawn i bawb sydd eisoes wedi llenwi ein holiadur diweddar am wasanaethau a gweithgareddau'r Fenter. Bwriad yr holiadur oedd monitro safon ac effeithlonrwydd ein gwasanaeth gan ein galluogi i fesur y galw am wasanaethau cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol. Mae cyfle o hyd i chi ymateb a chyfrannu drwy lenwi'r arolwg ar ein gwefan, neu drwy ein cyfrif Facebook a Twitter. Bydd un holiadur lwcus yn ennill taleb i'w defnyddio yn John Lewis, felly cofiwch nodi ar ddiwedd yr holiadur os hoffech gymryd rhan yn y gystadleuaeth a chael cyfle i ennill £30!



*Nigel Owens yn cyflwyno cwrs Dyfarnu Rygbi Lefel URC fel rhan o raglen hyfforddiant y Fenter*

## Hanner Tymor Sulgwyn

Cofiwch gadw lygad ar wefan menter Caerdydd am wybodaeth lawn am weithgareddau hanner tymor! Byddwn yn cynnal Cynlluniau Gofal, sesiynau Bwrlwm, Miri Meithrin a llawer mwy…

# Colofn G.R.

Mae'r Gaeaf hir hwn wedi codi'r felan ar sawl un ond diau daw'r Gwanwyn i lonni tipyn ar ein calonnau yn y diwedd! Ond tra'n sôn am lonni ein calonnau beth am longyfarch camp pêl-droedwyr ein tîm yng Nghaerdydd ar ennill dyrchafiad i Uwch Gynghrair Lloegr o'r diwedd ar ôl blynyddoedd o foddi ar y lan. Da iawn fechgyn! Bydd Caerdydd rŵan yn croesawu timau enwog fel Man U a Chelsea ac mae'r llwyddiant yn mynd i roi Caerdydd ar fap y byd fel sy wedi digwydd yn hanes Abertawe sy wedi cyflawni'r un gamp o flaen Caerdydd.

Llongyfarchiadau i Dr Jamie Roberts ar basio'n feddyg ond trueni ei fod yn gadael Gleision Caerdydd am feysydd brasach drwy fynd i chwarae i dîm Racing Metro yn Ffrainc. Ond ys dywed y bardd Eifion Wyn 'Mae'n werth troi'n alltud ambell dro/a mynd o Gymru fach ymhell/er mwyn cael dod i Gymru'n ôl/a medru caru Cymru'n well'. Pob llwyddiant eto Jamie ond brysia'n ôl i dy ddinas enedigol!

Mae'r dathliadau can mlwyddiant ers sefydlu Pentre'r Gerddi yn Rhiwbeina wedi dechrau, ac ar fore Gwener y 12 Ebrill gwelwyd Arglwydd Faer Caerdydd yn dod i'r pentre i ddadorchuddio plac dwyieithog ar wal hen swyddfa'r Stâd yn cydnabod y garreg filltir hon yn hanes y pentref. Daeth tipyn o bobl ynghyd gan gynnwys Julie Morgan yr Aelod Cynulliad lleol, a disgyblion o'r ysgol leol, a bu sôn am y dathliad ar y radio a'r teledu.

Faint ohonoch tybed a wyliodd rownd derfynol "Côr Cymru" ar S4C ar nos Sul y 14 o Ebrill, pan welwyd chwe chôr yn ymgiprys am Dlws y Gystadleuaeth a gwobr ariannol sylweddol? Os na wylioch wel cawsoch golled gan fod y corau i gyd wedi rhoi perfformiadau campus i ni a thipyn o syndod mewn gwirionedd odd deall mai Côr Merched y Wiber o ardal Castell Newydd Emlyn a ddaeth i'r brig yn ôl y tri beirniad er bod na lawer wedi meddwl hwyrach mai un o'r ddau gôr o Gaerdydd sef Côr CF1 neu Gôr Aelwyd y Waun Ddyfal fyddi'n cipio'r wobr. Ond na, a rhaid llongyfarch y Côr newydd hwn o Gastell Newydd Emlyn ar eu camp ond ar yr un pryd diolch i'r ddau gôr o Gaerdydd ar berfformiadau hynod o raenus a roddodd bleser mawr i lawer o'r gwylwyr.

Trist a brawychus odd clywed am y ffrwydriadau erchyll ar ddiwedd y Râs Farathon yn Boston yn yr Unol Daleithiau. Mae hi'n anodd derbyn bod na bobl mor ddieflig o greulon a chibddall i'w cael sy'n gallu cynllwynio i greu cymaint o lanastr i fywyd pobl hollol ddiniwed. Erbyn i'r golofn hon ymddangos bydd marathon Llundain wedi digwydd a'r gobaith ydy na fydd unrhyw ddigwyddiad ysgeler wedi amharu ar y ras hon sy'n rhoi cymaint o fwynhad i bobl ac sy'n codi miliynau o bunnoedd i wahanol elusennau. Nôl yn 1984 rhedais i yn hanner marathon Caerdydd gan orffen y ras mewn awr a thri chwarter ac o yr orfoledd wrth gael medal am fy ngwddw fel pawb arall a orffennodd y ras! Yna, yn 1985 rhedais i o gwmpas Llyn Tegid yn Râs Mini Marathon yr Urdd er mwyn codi arian i Fudiad Meithrin. Ond mae fy nyddiau rhedeg wedi hen ddod i ben bellach a rhaid bodloni ar wylio eraill yn cyflawni campau!

# Ôl-Lwybrau

Yn enedigol o ardal Trelái, derbyniais i f'addysg yn Ysgol Gynradd Trelái ac Ysgol Gyfun Glyn Derw.

Dw i'n cofio'n dda fy mhlentyndod yn yr ardal yn y chwe degau a'r anturiaethau a geid gyda fy ffrindiau pennaf sef Michael a Phillip Cleaver. Bydden ni'n cerdded i bob man - do'dd yr un ddimai goch rhwng y tri ohonon ni ac felly o'dd yn rhaid inni gerdded. Bydden ni'n crwydro am filltiroedd oddi cartref ac on ni'n gwybod am y lleoedd gorau i hela brogaod, llyffantod, genau-goegiaid, nadroedd brithion a nadroedd dall. On ni'n gwybod am bob math o adar a lle i ganfod eu nythod.

Ar dywydd poeth cerdden ni i Barc Fictoria i ymdrochi yn y pwll. Yn aml iawn bydden ni'n cerdded i'r dre i ymweld â'r Amgueddfa Genedlaethol am ei bod yn rhad ac am ddim. Unwaith, fe gerddon ni i'r Barri ac o'dd hi wedi hen nosi cyn inni gyrraedd adre. O'dd yr heddlu yn chwilio amdanon ni ymhob man a ninnau ond yn saith mlwydd oed. Bois bach, ces i stŵr gan fy rhieni. On ni'n sgut am afalau ac yn gwybod am bob coeden afalau yn ein milltir sgwâr ni. Dyna, dw i'n credu oedd yr unig ddrygioni bydden ni'n ei gyflawni fel plant, sef dwyn ffrwyth o erddi pobl.

Ym Medi 1967 dechreuais i yn Ysgol Gynradd Trelái a gadawais yn haf 1971. Yr hybarch Gwilym Roberts, Rhiwbeina oedd yr athro Cymraeg yno ac alla i ddim gorbwysleisio na gorddweud ei gyfraniad i f'addysg yr adeg honno a thros dreigl amser. Unwaith yn y pedwar amser mae cwrdd â rhywun sy'n mynd i ddylanwadu'n gryf ar eich bywyd ac i mi, Gwilym yw'r dyn hwnnw. Dyma, yn ddiau o'dd y tro cyntaf imi glywed yr iaith Gymraeg a chofiaf imi ddwlu ar sŵn yr iaith. Fe ddysgon ni ganeuon fel Mi welais jac-y-do, Lawr ar lan y môr ac Mae gen i het dri chornel, ac yn y blaen. Dysgais i rifo a gosodwyd sylfaen gadarn o ymadroddion bydda i'n dal yn eu defnyddio am flynyddoedd i ddod. Gorsymleiddio yw dweud mai nod Gwilym o'dd dodi ambell ymadrodd ym mhennau'r disgyblion ond yn hytrach, plannu hadau fydd yn dwyn ffrwyth mewn cenhedlaeth neu ddwy ac yn gwneud yn sicr bod y plant yn gweld gwerth yr iaith ac yn ei gwerthfawrogi ac yn hyn o beth, fe lwyddodd yn gampus.

Yn Ysgol Gyfun Glyn Derw bues i yn ffodus eto i gael athrawes Gymraeg benigamp sef Falmai Griffiths, hefyd o Riwbeina. Des i yn gyntaf yn y dosbarth ymhob arholiad Cymraeg am dair blynedd o'r bron er mai B- o'dd y marc gorau imi gael erioed am f'ymdrechion.

Gadewais i'r ysgol ym 1976 ac es i ati i fwrw prentisiaeth am bedair blynedd a dysgu'r grefft o fod yn saer priddfeini neu 'frici'.

Yn yr wyth degau cynnar ac am resymau dw i ddim yn eu cofio 'nawr, penderfynais i ailgydio yn yr iaith Gymraeg. Cofiaf yn dda fynd i Ganolfan yr Urdd yn Heol Conwy i gofrestru a gweld Gwilym yno am y tro cyntaf ers hydoedd. O'dd peth Cymraeg 'da fi ond o'n i ddim yn rhugl o bell ffordd. Yn y fan hyn, cwrddais i â Ken Kane am y tro cyntaf a Ken yn anad neb adeiladodd ar y sylfaen a osodwyd flynyddoedd gynt ac fe ddaethon ni yn ffrindiau mynwesol. Fan hyn dw i'n nodi fy nyled iddo. Erbyn yr ail flwyddyn on i'n arwain fy nosbarth fy hun ac yn dechrau ar gyfnod o diwtora. Ar un adeg fi o'dd tiwtor iaith yr Amgueddfa Genedlaethol yn dysgu hyd at hanner cant o bobl mewn chwe dosbarth ar gyfer tair safon. Ces i f'enwebu gan y dysgwyr ar gyfer y tiwtor gorau yng Nghymru, cystadleuaeth a gynhaliwyd gan Goleg Digidol Cymru ar y pryd. Es i â fy ngwraig, Jayne, a Gwilym i westy Dewi Sant yn y bae ar gyfer y noson wobrwyo. Er nad enillais, cyrhaeddais i'r tri olaf. Fe'm hysbyswyd ar y noson mai fi oedd yr unig ddysgwr i gyrraedd yr hanner cant olaf.

Wedi deunaw mis o ddysgu'r iaith ces i gynnig swydd gofalwr yn Amgueddfa Werin Cymru a dw i'n dal i weithio yna bron tri deg o flynyddoedd wedyn. Erbyn hyn fi yw Ceidwad y Castell ar ran y gofalwyr.

Bues i'n astudio'r Gymraeg ar Gynllun y Radd Allanol yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth ac yn awr dw i'n raddedig yn yr iaith. Hefyd, dw i'n llunio croesair bob mis ar gyfer papur bro Tafod Elái.

Y llynedd derbyniais i lawdriniaeth go hagr i dynnu lwmp mawr o ganser o fy ngwar. Ces i dri deg sesiwn o radiotherapi dros gyfnod o chwe wythnos yn ysbyty Felindre. On i'n sâl difrifol pan ysgrifennais i'r gerdd isod i ganmol yr ysbyty a'r bobl arbennig i gyd sy'n gweithio yna.

**Felindre**

Felindre, hafan a lloches i feddwl helbulus
Esmwythâd i boen ysbryd alaethus
Lamp sydd yn treiddio'r holl dywyllwch
Iachau cleifion a'u dwyn at brydferthwch
Natur ymroddedig yr holl staff a'u hewyllys ddiffuant
Diwyd eu gofal a di-feth eu moliant
Reiol yw ei bodolaeth tra bo'r afiechyd yn y byd
Ehangfryd ydyw ym mhob agwedd a phob pryd.

**Colin Murphy**

# Apêl am deuluoedd i gymryd rhan mewn cyfres deledu newydd

Mae cynhyrchydd teledu o Gricieth yn apelio am deuluoedd i gymryd rhan mewn cyfres newydd sbon sydd i'w darlledu ddiwedd y flwyddyn ar S4C. Enw'r gyfres yw 'Plant Alder Hey' ac fel mae'r enw'n awgrymu, dilyn hynt a helynt plant sy'n gorfod mynychu'r ysbyty arbennig hwn yn Lerpwl yw nod y rhaglen. Sioned Morys, gwraig y bardd Twm Morys, gafodd y syniad wedi i'w trydydd plentyn, Begw Elin, orfod cael llawdriniaeth go hegar yn Alder Hey, a hynny ar ei diwrnod cyntaf un yn y byd. 'Ychydig oriau ar ôl cael ei geni, roedd Begw ar ei ffordd i Lerpwl am lawdriniaeth a barodd yn y pen draw am 10 awr. Buom am wythnos wedyn yn yr Adran Gofal Dwys, cyn cael ein trosglwyddo i'r ward babis. Mae Begw rŵan yn hogan fach 3 a hanner oed, ac er na fu'r tair blynedd diwethaf yn hawdd, does dim dydd yn mynd heibio nad ydwyf yn diolch i'r Nefoedd fod y fath ysbyty yn bod'.

Cyn geni Begw, mae'n wir dweud nad oedd gan Sioned amcan am yr hyn roedd Alder Hey yn ei wneud, nac ychwaith yr effaith mae cael plentyn, sydd angen llawdriniaeth yno, yn ei chael ar y teulu. 'Pan mae Alder Hey yn galw, rhaid gollwng pob dim a mynd. Oherwydd bod y lle mor bell o adra, rhaid oedd aros dros nos. Roedd yn rhaid i 'Mam ddod i warchod Dyddgu a Tudwal, oedd yn 5 a 3 ar y pryd. 'Dwn i ddim beth faswn ni wedi ei wneud hebddi!'.

Mae pethau wedi tawelu erbyn hyn. Mae cyflwr Begw - sef *Tracheal Oesophageal Fistula* - yn golygu bod ei phibell wynt yn wan, ac mae'n dal i gael pyliau o annwyd drwg. Ond dim byd tebyg i'r hyn oedd yn digwydd yn y flwyddyn gyntaf pan oedd Begw yn tueddu i stopio anadlu yn gyfan gwbwl! 'Fe fu'n rhaid i Twm a minnau roi 'cusan fywyd' i Begw sawl tro. Erbyn heddiw, fedra'i ddim coelio ein bod wedi gorfod gwneud y fath beth. Ond mi wnaethom, ac rydan ni wedi dod trwyddi'.

Yr amcan pennaf wrth wneud y gyfres ydi codi




ymwybyddiaeth am fodolaeth Alder Hey, a helpu pobl i ddeall yr hyn mae teuluoedd sy'n mynychu'r lle yn gorfod ymdopi ag o. 'Y peth cyntaf rydach chi eisiau ei wneud ar ôl dod adref ydi talu'n ôl mewn rhyw ffordd. Mae llawer yn cynnal nosweithiau codi pres. Y ffordd hawsa' i mi oedd gwneud rhaglenni radio. Mi wnes i ddwy raglen ar gyfer Radio Cymru, ac un i Radio Wales, a rhoi elw'r rhaglenni i Ronald McDonald House, y llety sy'n rhoi stafell am ddim i bobol fel fi, pan fydd plant bach sâl gennym yn yr ysbyty. Hon yw'r gyfres gyntaf i mi ei gwneud ar y teledu. Mi fydd elw'r rhaglenni yma hefyd yn mynd i Lerpwl.'

Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan, byddwch cystal â chysylltu â Sioned yn Teledu Chwarel ar 01766 523 522, neu 07712531439. Diolch!

Cymdeithas Gwenynen Gwent

## Ysgol Undydd Llanofer

**Dydd Sadwrn 8 Mehefin 2013 – 10yb-4yh**

**Neuadd y Pentref Llanofer**

Dr Celyn Gurden-Williams (Bywyd ar Ystad Llanofer)
Yr Athro David Thorne (Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru)
Mick Petts (Gwneuthurwr Cwryglau)
Taith dywysedig Ystad Llanofer a diweddglo cerddorol.
Tl £12 gan gynnwys brechdanau amser cinio
Gweler **www.ladyllanover.org.uk** neu ffonio Robin Davies 01594 583172

## Cwmni Teledu Rondo yn Chwilio am Gyfweleion

Mae Lois Jones o gwmni teledu Rondo yn gwneud ymchwil ar gyfer ail gyfres o Raglen Cadw Cwmni. Yn y rhaglen mae John Hardy yn sgwrsio â phobl ddifyr o bob cwr o Gymru a thu hwnt. Mae pobl wedi bod ar y rhaglen yn trafod ystod eang o bynciau gan gynnwys: bod yn Faciwî, tyfu i fyny dramor, bod yn aelod o Fyddin y Tir, dringo Everest, teithio'r congo a bod yn aelod o dîm hoci Prydain. Felly fel y gwelwch does dim gwahaniaeth beth yw'r stori , dim ond bod stori i'w dweud. Mae Lois yn gofyn i ddarllenwyr y Dinesydd gymryd ychydig funudau i geisio meddwl am awgrymiadau ar gyfer y gyfres nesaf? Mae cymaint o bobl ddifyr yn ein cymunedau, nad ydynt ym aml yn cael cyfle i adrodd eu hanesion i'r genedl, wel dyma eu cyfle nhw! Felly os ydych yn adnabod rhywun sydd â stori i'w dweud cysylltwch â Lois yn: lois.jones@rondomedia.co.uk

# YSGOLION

## Ysgol Bro Edern

**Diwrnod Llythrennedd**

Ar y seithfed o Fawrth, sef Diwrnod y Llyfr, roedd hi'n Ddiwrnod Llythrennedd yn yr ysgol. Cafon ni 5 gweithgaredd gwahanol yn ystod y dydd. Mewn un sesiwn roedd rhaid i ni ddarllen cerdd gariadus Gymraeg a chynnwys y geiriau rhamantus ar y llwyau cariad ddarlunion ni. Mewn sesiwn arall cafon ni gyfle i fynegi ein barn wrth ysgrifennu blog am achos y cig ceffyl mewn bwydydd. Yn y sesiynau eraill fe ddefnyddion ni ein sgiliau darllen. Dysgon ni am hanes y Ddraig Goch ac awduron llyfrau plant. Yn y prynhawn roedd Cwis y Llyfr gyda Miss Morris a Mrs Furci. Roedd cwestiynau am hoff lyfrau'r athrawon i ddathlu Diwrnod y Llyfr cyntaf ym Mro Edern!

Catelyn Carling



*Disgyblion Bl 7 yn ymweld ag Ysgol y Berllan Deg ar Ddiwrnod y Llyfr*

**Eisteddfod Sir yr Urdd**

Aeth 36 o ddisgyblion brwd Bro Edern draw i Ysgol Plasmawr ar gyfer Eisteddfod Sir yr Urdd ym mis Mawrth. Roedd pawb yn llawn cyffro ynghylch cymryd rhan yn y Gân Actol a'r Côr o flaen ysgolion eraill am y tro cyntaf. Pan aethon ni ar y llwyfan i berfformio'r Gân Actol roedd pob un ohonom yn nerfus, ond pan ddechreuodd y nodau cyntaf cafon ni lawer o hwyl. Daethon ni'n gyntaf yn y gystadleuaeth yma ac yn bedwerydd yng nghystadleuaeth y Côr. Diolch yn fawr i Miss Dafydd, Miss James a Mr Jeff Howard am ein hyfforddi yn ystod y misoedd diwethaf a diolch i Miss Harries am greu'r holl wisgoedd ffantastig! Rydym yn edrych ymlaen nawr at ailddechrau ymarfer a mynd draw i Sir Benfro ym mis Mai!

Lauren Connelly



*Disgyblion y Gân Actol*

**Spelling Bee**

Ym mis Ebrill aeth tri disgybl o Flwyddyn 7 draw i Lanelli i gystadlu yn y gystadleuaeth Spelling Bee drwy gyfrwng y Ffrangeg. Rhaid canmol ymdrech Anahita Gooch, Ioan James a Lauren Connelly i gofio'r holl eirfa Ffrangeg ac am eu perfformiad ar y diwrnod! Bydd y tri yn ymddangos ar y rhaglen Prynhawn Da.

**Chwaraeon**

Mae holl dimau chwaraeon yr ysgol wedi bod yn brysur iawn. Rhaid llongyfarch y tîm pêl-droed am guro bechgyn y Barri 4-3. Llwyddodd y tîm pêl-rwyd i guro ysgolion Llanilltud Fawr, St Illtyd, Llanisien, yr Eglwys Newydd a Cantonian a daethon nhw'n ail yn erbyn Ysgol Glantaf yn rownd ragbrofol y Sir. Er i dîm hoci'r merched golli yn erbyn Llanisien, yr Eglwys Newydd a Phlasmawr yn nhwrnameint y Sir roedd Mr Hancock yn falch iawn o'u perfformiad. Chwaraeodd y bechgyn 5 gêm rygbi yng nghystadleuaeth 7 bob ochr y Sir ac enillon nhw yn erbyn Michaelston.

## Ysgol Plasmawr

**Pwt o'r Plas**

www.plasmawr.cardiff.sch.uk

**LLONGYFARCHIADAU –**

- Mr Gwyn Jones ar lwyddo i orffen marathon Llundain o fewn 4 awr gan godi swmp o arian ar gyfer Dolen Cymru.
- Aled Williams a Llinor Williams ar enedigaeth merch fach.
- Mared Browning ar ennill Cerddor Ifanc Cerddorfa'r Sir.
- I'r rhestr hirfaith o gystadleuwyr a fu'n llwyddiannus yn yr Eisteddfod Sir ac a fydd yn cystadlu, felly, ym Mhreseli.



*Hwylras CA3 Plasmawr*

- I bawb a fu'n rhan o'r Hwylras a gynhaliwyd yn ddiweddar
- I'r Ganolfan Ddysgu ar gynnal diwrnod 'Siop Swap' i ddathlu Diwrnod y Llyfr.
- Carys Osbourne a Mirain Dafydd ar gael eu dewis i chwarae i dîm hoci'r sir am 2013-14
- Enillydd y Gadair Gymraeg hŷn oedd Jac Edwards o flwyddyn 10 ac enillydd y Gadair Gymraeg iau oedd Garmon ab Ion o Flwyddyn 9. Steffan Prytherch o Flwyddyn 10 ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth y Goron Saesneg hŷn ac Nate Davies o Flwyddyn 7 enillodd y Goron Saesneg iau.
- I Chloe Jones o Flwyddyn 10 ar gael ei dewis i fynychu gwersyll hyfforddi Sgwad Datblygu Cenedlaethol Cymru dan 16 yng Nghanolfan Genedlaethol Datblygu Pêl-droed yng Nghasnewydd.
- I bawb o Flwyddyn 7 ar gystadlu yn y Ffair Wyddoniaeth hynod o lwyddiannus.
- I dimoedd pêl-droed a rygbi Blwyddyn 8 ar fod yn bencampwyr ysgolion Caerdydd – y dwbl dwbl!




*Ffair Wyddoniaeth Blwyddyn 7 Plasmawr*



# CANEUON PROTEST

**- Artistiaid Amrywiol**
**Albym lawrlwytho'n unig - iTunes**
**SAIN SCD2701 - £7.99**

**Mewn unrhyw gymdeithas wâr, mae lle i brotest ac i ymgyrchu, ac i gicio yn erbyn y tresi. Arwydd o iechyd unrhyw ddiwylliant yw bod y caneuon a genir hefyd yn mynegi'r brotest honno o bryd i'w gilydd. Cyhoeddir y casgliad hwn o 30 ganeuon protest Cymraeg i gyd-fynd â'r gyfres o raglenni ar thema protest a ddangosir gan S4C.**

Mae caneuon wedi cael eu defnyddio i fynegi teimladau cryfion ers canrifoedd, ac y mae sawl enghraifft o "ganu protest" yn ein traddodiad o ganu baledi yng Nghymru. Sefydlwyd label Sain yn ystod un o gyfnodau mwyaf cythryblus yr ymgyrchu dros yr iaith Gymraeg, a hawliau Cymru fel cenedl, a naturiol felly oedd i hynny gael ei amlygu mewn nifer o'r caneuon a recordiwyd. Parhaodd y thema o ganu "protest", ac o fynegi dyheadau a theimladau cryf, hyd heddiw, er ei bod yn amrywio mewn natur o gyfnod i gyfnod.

Dengys y casgliad hwn nid yn unig fel y mae pwnc y brotest yn amrywio, ond hefyd fel yr ehangodd y cynfas fel petai, gan ddwyn i mewn gyfeiriadau at sefyllfa De Affrig, a phobol dduon Gogledd America. Ond prif bwnc y brotest gan amla, beth bynnag fo arddull y miwsig, yw brwydr yr iaith, hawliau'r gweithiwr a'r frwydr dros diriogaeth Cymru, yn enwedig yng nghyd-destun boddi Tryweryn.

## RHESTR TRACIAU

**Y CYRFF**: Cymru, Lloegr a Llanrwst; **DAFYDD IWAN**: Ciosg Talysarn; **CHWYLDRO**: Rhaid yw eu tynnu i lawr; **LLYGOD FFYRNIG**: NCB; **OMEGA**: Adferwch y Cymoedd; **EDWARD H.**: Tŷ haf; **GERAINT JARMAN**: Cenhadon Casineb; **GERAINT LOVGREEN**: Nid eu hanes nhw yw fy stori I; **HERGEST**: Dewch i'r Llysoedd; **HUW CHISWELL**: Etifeddiaeth ar werth; **MAFFIA MR. HUWS**: Dan ni'm yn rhan; **MEIC STEVENS**: Tryweryn; **MYNEDIAD AM DDIM**: Llwch y glo; **PLETHYN**: Tân yn Llŷn; **SOBIN A'R SMAELIAID**: Ta-ta Botha; **STEVE EAVES**: Affrikaaners y Gymru Newydd; **TEBOT PIWS**: D'yn ni ddim yn mynd i Birmingham; **TRWYNAU COCH**: Niggers Cymraeg; **ENDAF EMLYN**: Arwyr estron; **TECWYN IFAN**: Gwrthod bod yn blant bach da; **DAFYDD IWAN**: Peintio'r byd yn wyrdd; **ANWELEDIG**: Hunaniaeth; **HEN WLAD FY MAMAU**: Nid Cymru fydd Cymru; **ETO**: Sut fedrwch chi anghofio; **MIM TWM LLAI**: Pam fod eira yn wyn?; **NÂR**: Cymro; **SIBRYDION**: Madame Gullotine; **IRIS WILLIAMS**: I gael Cymru'n Gymru Rydd; **HUW JONES**: Dŵr; **MONIARS**: Mae'n wlad i mi.

Gwybodaeth bellach: Nerys Lloyd
nerys@sainwales.com / Lois Eifion lois@sainwales.com
01286 831 111

## • Llythyr • Llythyr • Llythyr • Llythyr • Llythyr • Llythyr • Llythyr • Llythyr •

Annwyl Ddarllenwyr,

Ym mis Ebrill roedd hi'n flwyddyn ers i mi ddechrau yn fy rôl fel Comisiynydd y Gymraeg. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a gysylltodd â mi yn ystod y flwyddyn. Trwy rannu eich profiadau, a thrwy gyflwyno cwynion am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg, ymateb i'r ymgynghoriad ar safonau, mynychu cyfarfodydd cyhoeddus ac ymweld â'n stondin yn sioeau'r haf, fe wnaethoch gyfraniad gwerthfawr i lwyddiant y gwaith a fy ngalluogi i a'm tîm o swyddogion i adnabod y materion sydd o bwys i siaradwyr Cymraeg ym mhob cwr o Gymru. Dyma rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn mewn ffigurau:

- Delio â 466 o achosion gan unigolion oedd yn teimlo bod ganddynt le i gwyno am wasanaeth Cymraeg
- Croesawu dros 300 o bobl i'n cyfarfodydd cyhoeddus
- Derbyn dros 260 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar safonau mewn perthynas â'r Gymraeg
- Dosbarthu dros 10,000 o fathodynnau 'Iaith Gwaith' sy'n dangos bod person yn siarad Cymraeg

Yn ein hail flwyddyn, byddwn yn adeiladu ar y gwaith hwn ac yn gweithredu i herio sefyllfaoedd lle caiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru. Yr haf hwn bydd stondin y Comisiynydd yn ymweld ag Eisteddfod yr Urdd yn Sir Benfro, y Sioe Fawr yn Llanelwedd a'r Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych.

Os ydych yn mynychu'r sioeau hyn, dewch draw i'n gweld i drafod eich profiadau a chyflwyno eich cwynion, derbyn bathodyn Iaith Gwaith a thaflenni gwybodaeth am waith a rôl y Comisiynydd a hefyd er mwyn cael cyfle i dderbyn gwybodaeth a bwydo i mewn i'r ymholiad statudol arbennig yr ydym yn ei gynnal er mwyn edrych yn fanwl ar y defnydd o'r Gymraeg yn y sector iechyd.

Yn gywir

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg
post@comisiynyddygymraeg.org
0845 6033 221

**Mae antur yn aros amdanoch...**

Dewch i ddarganfod traethau ysblennydd, teithiau cerdded hyfryd a rhaglen weithgareddau yn llawn cyffro. Neu ymwelwch ag un o'n hatyniadau gwych i'r teulu cyfan: teithiwch yn ôl mewn amser a darganfod eich rhyfelwr mewnol yng Nghastell Henllys, ymunwch â'r hwyl ganoloesol yng Nghastell Caeriw, neu manteisiwch ar gyfle i fod yn artist yn Oriel y Parc.

**Cewch fwy o wybodaeth ar www.arfordirpenfro.org.uk.**

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park



**Ymwelwch â'n stondin yn Eisteddfod yr Urdd i ddarganfod diwrnod allan gwych.**

# Newyddion o'r Eglwysi

## Ebeneser

### Y Clinc

Wyddoch chi fod Bwyty yng ngharchar Caerdydd a High Down, Surrey? Cynllun yw hwn i leihau aildroseddu a rhoi cyfle i garcharorion categori isel ennill Tystysgrif Alwedigaethol cyn cael eu rhyddhau yn ôl i'r gymdeithas. Enw'r elusen yw 'The Clink Cymru'. Aeth 81 o aelodau a ffrindiau Ebeneser i gael pryd o fwyd tri chwrs ym Mwyty Carchar Caerdydd nos Fercher, 10 Ebrill. Cafwyd pryd bendigedig a'r gobaith yw trefnu ail noson cyn bo hir. Codwyd oddeutu £545 tuag at ein helusen am hanner cyntaf y flwyddyn, sef Y Stafell Fyw. Os hoffech wybod mwy am 'Clink Cymru' ewch i www.theclinkcharity.com

### Ymestyn allan

Ar nosweithiau'r 16eg a'r 24ain bu criw ohonom yn rhannu taflenni o gwmpas cartrefi'r Eglwys Newydd. Mae'n rhan o'n cenhadaeth i ymestyn allan i wahodd ffrindiau newydd i ymuno â ni.

### Undeb y Myfyrwyr

Ar nos Sul, 21 Ebrill daeth Gerwyn Lewis o Undeb Gristnogol Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd i dderbyn siec o £700, ar y cyd, gan Ebeneser, a chan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, o'u rhaglen ddatblygu, a hynny tuag at y gwaith o gyrraedd a chyflwyno'r Efengyl drwy amrywiol weithgareddau, ymysg y llu o fyfyrwyr sy'n dod i'r coleg bob blwyddyn. Cyflwynwyd y siec ar ein rhan gan Malcolm Thomas.

### Llan-Fad-Mob

Aeth criw o ieuenctid y capel - 'Y Mob' (Mas o'r Bad), ac un neu ddau o ffrindiau, i wersyll yn Llanfadog dros benwythnos y Pasg. Do, cafwyd cyfle i gymdeithasu a chael hwyl ond cafwyd sesiynau i'r bechgyn a'r merched ar neges y Pasg. Yn ôl y sôn cafwyd lot fawr o hwyl a 'chydig iawn o gwsg. Ewch i www.ebeneser.org i weld fideo o'r penwythnos.

### Llongyfarchiadau

...i Gwilym Tudur ar ennill Uwch Ysgoloriaeth Prifysgol Aberystwyth.

## Salem, Treganna

### Bedyddiadau

Llongyfarchiadau i Catrin ac Owen Charles a'r teulu ar fedyddio eu plant, Gruff, Alaw a Mai ar yr 21ain o Ebrill. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

### Adran yr Urdd, Salem

Llongyfarchiadau i'r adran ar ei llwyddiant yn yr eisteddfod sir yn y Barri, wrth i'r corau berfformio mor wych. Braf oedd gweld y plant wrth eu bodd ar y llwyfan. Diolch i bawb fu wrthi'n ddygn yn helpu'r plant.

### Clwb Llyfrau

Cyfarfu'r clwb ar y 9fed o Ebrill i drafod 'Cig a Gwaed' gan Dewi Prysor.

Cyfarfu'r clwb cerdded a'r clwb brecwast yn ystod y mis.

### Clwb y Bobl Ifanc

Noson DVD a gafwyd yn ystod mis Ebrill, pawb wedi joio.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â nifer o deuluoedd Salem y mis hwn. Rydym yn cydymdeimlo'n fawr â Jean Hughes sydd wedi colli ei gŵr. Cydymdeimlwn yn fawr â Heather sydd wedi colli ei thad, a Kathryn Morris sydd wedi colli ei thad yn ddiweddar. Rydym hefyd yn cydymdeimlo'n fawr â Lusa Glyn sydd wedi colli ei thaid, a Catrin Wyn sydd wedi colli ei mam-gu.

## Tabernacl

### Priodas

Mwynhawyd achlysur dedwydd adeg priodas Iona Hughes a Joe Coles. Maent yn byw yng Nghaerffili erbyn hyn, ac yn edrych ymlaen at oes o lawenydd gyda'i gilydd.

Yn yr un modd dathlwn gyda Glyn a Margaret Rees achlysur priodas eu mab Ceri â Sara yn Eglwys Gadeiriol Llandaf cyn y Pasg.

### Genedigaeth

Rhannwn lawenydd Ann Beynon a'r teulu wrth iddynt groesawu Cadi, merch Marged a'i chymar Richard.

### Llwyddiant ar y maes rygbi

Yng nghanol bwrlwm cystadlaethau'r rygbi i ddynion, mae perygl anghofio bod gan y gwledydd hyn dimau merched sy'n cystadlu yn eu pencampwriaeth hwythau. Maswr y tîm cenedlaethol yw Elinor Snowsill, a rhoddodd gyfrif da ohoni ei hun fel y prif gicwraig dros Gymru. Llawenhawn yn llwyddiant Elinor.

### Llwyddiant ym myd y ddrama

Gwelsom enw Iwan Rheon ar sawl rhestr llwyfan a ffilm dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae bellach yn cael gwaith cyson ar lwyfannau ledled y byd. Cyn hir byddwn yn ei weld ar ITV yn actio gyferbyn a sêr enwog fel Derek Jacobi, Ian McKellen a Francis de la Tour. Fe gofiwn ninnau Rheon yn chwarae rhan Herod yn Nrama'r Geni rai blynyddoedd yn ôl!

### Gweithgareddau'r Chwiorydd

Daeth gweithgareddau'r chwiorydd i ben am y tymor gyda llu o gyfarfodydd. Diolch i'r sawl fu'n arwain y sesiynau y mis diwethaf, sef Margaret Elwyn Williams, Howard Evans, Val Simpson a Gill Thomas. Bu nifer dda o chwiorydd yr eglwys yng nghapel yr URC yn cydaddoli gyda chwiorydd Eglwys Ebeneser.

**Cinio Gŵyl Ddewi**

Cafwyd gwledd mewn sawl ystyr yn y festri i gofio Gŵyl Ddewi, o dan lywyddiaeth Martin Cray, a diolchwn i bawb a gydweithiodd mor hwylus i drefnu'r arlwy. Diddanwyd y cwmni gan rai o ddynion ifanc yr eglwys a gwerthfawrogwyd anerchiad difyr gan Rhodri ab Owen.

**Bore Coffi**

Diolch i Jean Evans am ei chroeso arferol fis Mawrth i selogion y Bore Coffi. Ym mis Ebrill wedyn cawsom gyfle i ymweld â chartref Illtyd a Julia Lloyd.

## Eglwys Dewi Sant

**Yr Wythnos Fawr a'r Pasg**

Cafwyd gwasanaethau o'r cymun bendigaid bob dydd hyd nos Iau Cablyd pan ychwanegwyd defodau golchi traed, diosg yr allor a gwylnos at y gwasanaeth cymun.

Roedd gwasanaeth myfyrdod y Groes Dydd Gwener y Groglith dan nawdd Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd a braf oedd gweld yr eglwys yn llawn. Llywyddwyd gan y Ficer, y Parch. Dyfrig Lloyd a'r pregethwr oedd y Parch. Glyn Tudwal Jones a chafwyd ganddo sylwadau deallus a threiddgar i fyfyrio arnynt. Cafwyd yntred gan gôr yr eglwys, sef Parce Domine gan Simone Oliver ac fe ganont hefyd yr anthem bwrpasol Ave verum Corpus o eiddo William Byrd.

Nos Sadwrn, cafwyd gwylnos y Pasg. Gwasanaeth cyntaf Dydd y Pasg yw'r Wylnos ac fe'i cynhelir ar adeg gyfleus rhwng machlud haul Dydd Sadwrn yr wythnos fawr a chodiad haul Fore'r Pasg. Gwasanaeth y Goleuni a'r Cymun Bendigaid oedd hwn.

Dydd Sul cafwyd gwasanaeth o'r Cymun bendigaid gydag anthem arall gan y côr i ddathlu'r Pasg.

Roedd yr eglwys wedi'i haddurno'n hyfryd gan Gylch Dewi dan arweiniad Ann Mears.

**Cyngerdd**

Nos Sadwrn Ebrill 13 cafwyd cyngerdd hyfryd gan Gôr Phoenix o Reading yn yr eglwys. Mae hwn yn un o gorau amatur gorau Lloegr ac roedd yn fraint ei groesawu i'r eglwys.

## Eglwys y Crwys

**Bedydd**

Cynhaliwyd oedfa hyfryd o dan arweiniad y Parch Glyn Tudwal Jones ar fore'r Pasg pan fedyddiwyd Trystan Arran, mab bach Ross a Lisa Poulter, Ceredin. Mae Trystan yn ŵyr i Gareth a Gwen Edwards ac yn or-ŵyr i Mrs Doris James.

**Cyfarchion**

Llongyfarchiadau i Owain a Rhiannon Evans ar enedigaeth Rhys Llywelyn, ŵyr bach cyntaf Arthur a Diana Evans.

Llongyfarchiadau i Hannah Thomas a Phillip Williams ar enedigaeth eu merch, chwaer fach i Manon ac wyres i Wyn a Beryl Thomas.

Mae nifer o'n haelodau heb fod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar a dymunir yn dda i Mrs Margaret Richards, Mrs Gwen Holt a Mr Keith Jones.

**Cydymdeimlad**

Trist oedd clywed am farwolaeth Miss Helen Williams, Rhiwbeina. Bu Helen yn wael ers peth amser ac mae wedi treulio rhai misoedd yn Ysbyty Llandochau. Mae ein meddyliau gyda'i dau nai, David a Gareth a chydymdeimlir â hwy yn eu profedigaeth.

**Cylch Dorcas**

Cafwyd achlysur hapus yn y festri ar fore Sul wedi'r oedfa pan gynhaliwyd Stondin Punt y Pen. Roedd yn gyfle i aelodau gymdeithasu a dod i adnabod teuluoedd ifanc a phlant yr Ysgol Sul. Diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth. Rhannwyd yr elw rhwng y Cylch Cymorth a gwaith yr Ysgol Sul.

Bu aelodau Cylch Dorcas ar ymweliad ag Eglwys Gadeiriol Llandaf pan gafwyd taith o amgylch yr Eglwys trwy gyfrwng y Gymraeg a chyfle i weld Ffenestr Dorcas. Roedd yn brynhawn hynod ddymunol a orffennodd gyda phaned o goffi mewn bwyty cyfagos.

**Y Gymdeithas**

Am y drydedd flwyddyn o'r bron cynhaliwyd Garddwest yng nghartref Arthur a Diana Evans, yr Eglwys Newydd pan gafwyd stondinau planhigion a chacennau. Roedd yn brynhawn hynod o lwyddiannus gyda'r elw yn mynd tuag at Gronfa'r Eglwys. Diolch i Arthur a Diana am eu croeso.

## Minny Street

**Cydymdeimlo**

Cofiwn yn ddiolchgar am Mair Evans (gweddw'r Parchedig Noel Evans) a chydymdeimlwn yn ddiffuant â'r teulu. Cynhaliwyd gwasanaeth i ddiolch am ei bywyd yng Nghapel Minny Street ar 22 Ebrill.


**Bedydd**

Hyfrydwch fu tystio i fedydd Meg Morgan Llywelyn, merch Catrin a Rhodri (Treganna) ac Osian Rhys Jones, mab Meinir a Huw Euron (Caerffili) yn ystod mis Ebrill. Pob dymuniad da i'r ddau deulu.

**Dadorchuddio cofeb i ddwy genhades**

Ar fore Sul 7 Ebrill fe ddadorchuddiodd y gweinidog ddwy gofeb i ddwy genhades oedd â chysylltiadau agos iawn â'r eglwys, sef Mair Griffiths (1916-1996) a Gwenfron Moss (1898-1991). Bu Mair yn cenhadu allan ym Madagascar a Gwenfron yn Tsieina, India a Zambia. Roedd teuluoedd y ddwy genhades yn bresennol yn yr oedfa.

## DINESAIR Rhif 132



### Ar Draws

1. Yn pwyso ar y clogwyn yn ôl (8)
6. Corryn â chrib (4)
8. Brogaod yn colli dim wrth neidio dan y bondo (6)
9. Peri cymhlethdod i frawd anystyriol (6)
10. Dwyn tad arall i ddryswch (7)
12. '- ----- goch ddyry gychwyn' (1,5)
14. Poen ar siwrne (6)
15. 'Rwy'n edrych dros y bryniau pell ------- bob yr awr' (WW) (7)
19. Aderyn y nos sy'n swnio'n dda i bwy yn Lloegr? (6)
20. Lluchia ben y dagr. Dyna'r amcan (6)
21. Y diddos bron yn anniddig, dyna sydd i'w ddisgwyl (1,3)
22. Rhan o'r ddinas a lle i'r gwan gymysgu (8)

### I Lawr

2. Mae hwn yn gorffen cofnodi cynhaeaf da iawn (4)
3. Rhywbeth pigog mewn addysg allweddol (5)
4. Gideon yn codi oddeutu dechrau dydd hynod (7)
5. Mae hi mewn lle dryslyd iawn (5)
6. Torri cot fain y llyfr coffa (7)
7. 'Gwna fi fel pren ------, O! Fy Nuw
   Yn ir ar lan afonydd dyfroedd byw' (AG) (8)
11. 'O! f'enaid gwêl -------,
    Y person rhyfedd hwn.' (AG) (8)
13. Rhwystr i'r cyflog wedi canol Mai (7)
14. Benny bach yn dilyn Nain druan yn aflêr (7)
16. Diana yn codi llaw berffaith (5)
17. Aderyn o'r wlad (5)
18. Brwydr William i gynnal (4)

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams, 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN erbyn 6 Mehefin.

---

**Enillydd Croesair Rhif 130 -**

**Heledd Hall, Treganna**

**Atebion Rhif 130**

**Ar Draws** – 12. Lloc; 5. Llefaru; 7. Argraff; 9. Fachgen ifanc; 10. Cragen; 11. Digwsg; 13. Syndod; 16. Carreg; 18. Un dewisedig; 19. Tonnau; 20 Llygaid; 21 Set

**I Lawr** – 1. Lleufer; 2. Llusern; 3. Caniad; 4. Pancos; 6. Arch i gadw dyn; 8. Gwasgaredig; 10. Cas; 12. Gwg; 14. Ymunodd; 15. Dawnus; 16. Cyswllt; 17. Esgair

---

## Newyddion o'r Eglwysi *(Parhad)*

### Yr Awr Dawel

Fe ddechreuodd y gweinidog gyfres o chwech o gyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar ymdawelu o sŵn y byd am 6 munud, wedyn 12 munud ac yn y blaen nes cyrraedd Awr Dawel.

### Neges Trydar @MinnyStreet

Ar 13 Ebrill fe yrrwyd y filfed neges Drydar ddi-dor gan @MinnyStreet! Chwi Drydarwyr, ymunwch â thrydarwyr eraill yn lleol a ledled Cymru ar @MinnyStreet.

### Elusen yr Eglwys

Eurgain Haf o elusen Achub y Plant, sef elusen gyfredol yr eglwys, oedd yn arwain ein Hoedfa Foreol Gynnar ac fe soniodd am y gwaith da sy'n cael ei wneud gan yr elusen mewn 120 o wledydd ledled y byd gan gynnwys Cymru.

Cofiwch am Gyngerdd Tecwyn Ifan er budd Cymorth Cristnogol am 7.30yh nos Iau Mai 16 yn Neuadd Ysgol Bro Edern ar safle Ysgol Glantaf. Mae tocynnau am £10 ar gael gan Elinor Patchell ar 02920-627733 neu Dwyfor Lynn Jones ar 02920-619452.

### Y Daith Gerdded fisol

I Barc Cefn Onn yr aeth y criw o gerddwyr selog o dan ofalaeth John Albert a mwynhau tywydd gwanwynaidd iawn.

### Ein gwefan

Cofiwch ymweld â'n gwefan ar www.minnystreet.org am fwy o fanylion am weithgareddau'r eglwys.

# Calendr y Dinesydd • Mai-Gorffennaf

**Llun, 13 Mai**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7.30pm. Prif westai: Jon Gower. Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mawrth, 14 Mai**
Merched y Wawr Caerdydd. Noson Dysgwyr, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.

**Iau, 16 Mai**
Cyngerdd yng nghwmni Tecwyn Ifan er budd Cymorth Cristnogol. Yn Neuadd Ysgol Bro Edern (ar safle Ysgol Glantaf) am 7.30pm. Mynediad: £10. Tocynnau ar gael gan Elinor Patchell (029-2062-7733) a Dwyfor Lynn Jones (029-2061-9452).

**Gwener, 17 Mai**
Clwb y Diwc. Noson Gomedi yn y Duke of Clarence, Clive Road, Treganna, am 8.00pm.

**Sadwrn, 18 Mai**
Bore coffi i rai sy'n dysgu Cymraeg a drefnir gan yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg. Ymweliad ag Oriel Gelf yr Amgueddfa Genedlaethol yng nghwmni Marc Evans. Cwrdd ym mynedfa'r Amgueddfa am 10.30am. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 18 Mai**
Cymdeithas Carnhuanawc: Taith Wanwyn. Gwibdaith i Lwydlo. Arweinydd: Keith Bush. Cyfarfod wrth Orsaf Llwydlo am 10.30am. (Bydd trên yn gadael Caerdydd am 8.50am ac yn cyrraedd Llwydlo am 10.15am.) Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Keith Bush (keith.bush1@btinternet.com) neu Alan Jobbins (asjobbins@btinternet.com).

**Sadwrn, 18 Mai**
Côr Philharmonig Caerdydd yn cyflwyno 'Wind Band Mass' gan Haydn, yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, gan ddechrau am 7.30pm.

**Llun, 20 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cyngerdd gan Barti'r Waun Ddyfal, yng nghapel Bethel am 7.30pm. Tâl mynediad: £5.

**Llun, 20 Mai**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mercher, 22 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Taith brynhawn i Fro Morgannwg.

**Mercher, 5 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Mercher, 5 Mehefin**
Merched y Wawr Bro Radur. Brethyn Cartref a Chyfarfod Blynyddol, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

**Iau–Gwener, 6–7 Mehefin**
Cwmni Theatr Arad Goch yn cyflwyno 'Cerdyn Post o Wlad y Rwla' gan Angharad Tomos, yn Theatr Sherman am 1.30pm. ddydd Iau ac am 10.30am. ddydd Gwener. Tocynnau: 029-2064-6900. Am ragor o fanylion ewch i: http://www.aradgoch.org/

**Mawrth, 11 Mehefin**
Merched y Wawr Caerdydd. Noson Ryseitiau a Chyfarfod Blynyddol, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.

**Mercher, 12 Mehefin**
Seminar: 'Deddf Cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg 1563', yn neuadd Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, 2.00–4.15 pm. Croeso cynnes i bawb. Manylion pellach gan E. Gwynn Matthews (029-2056-2880).

**Iau, 13 Mehefin**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Trafod heddychiaeth yng nghwmni'r Parchedigion Guto Prys ap Gwynfor ac Owain Llŷr Evans a'r Uwchgapten Alun Davies, yng Nghapel y Crwys, Heol Richmond, am 7.30pm.

**Gwener, 14 Mehefin – Gwener, 21 Mehefin**
TAFWYL

**Gwener, 14 Mehefin**
Clwb y Diwc. Noson Agoriadol Tafwyl 2013: Maffia ac Y Bromas yn y Duke of Clarence, Clive Road, Treganna am 8.00pm.

**Sadwrn, 15 Mehefin**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Amanda Griffiths am 11.00am am Langyndeyrn. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 15 Mehefin**
Prif ddigwyddiad Tafwyl yng Nghastell Caerdydd.

**Llun, 17 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cyfarfod Blynyddol. Noson yng nghwmni'r nofelydd a'r bardd, Catrin Dafydd, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30pm.

**Mercher, 19 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Te Pen Tymor a Chyfarfod Blynyddol, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Mercher, 19 Mehefin**
Cymdeithas Carnhuanawc. Helfa Drysor Tafwyl. Cyfarfod wrth ddrysau Llyfrgell Ganolog Caerdydd ar yr Ais am 6.30pm.

**Sadwrn, 22 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Bore coffi yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, rhwng 10.30 a 12.00. Yr elw er budd Shelter Cymru.

**Mercher, 3 Gorffennaf**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Taith Haf.

**Sul, 7 Gorffennaf**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cymanfa Ganu. Arweinydd: Emyr Roberts. Organydd: Dr Alun Jones. Yng nghapel Beulah, Rhiwbina, am 8.00pm.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
Ffôn: 029-2062-8754;
Ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk


# Y Dinesydd

Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch yn cynnwys Bro Morgannwg

## TELERAU HYSBYSEBU 2013 - 2014

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tudalen gyfan A4 | 18 x 28cm | £120 | Lliw £150 |
| Hanner tudalen | 18 x 14cm | £60 | Lliw £80 |
| Chwarter tudalen | 9 x 14cm | £30 | Lliw £50 |
| Wythfed tudalen | 9 x 7cm | £20 | Lliw £30 |
| Bocs | 6 x 6cm | £15 | Lliw £25 |

*Ceir gostyngiad o 10% am hysbysebu mewn tri rhifyn dilynol.*

Anfonwch arlunwaith yr hysbyseb ar ffurf **jpeg** neu **pdf** drwy e-bost i db.james@ntlworld.com
neu, os dymunwch, anfonwch y **geiriad yn unig**, gan nodi maint y bocs yn l y tabl uchod.

Am osod taflen rydd o fewn Y Dinesydd gall y telerau amrywio o £50 i £200 – yn dibynnu ar y pwysau.

**Rhaid derbyn hysbysebion erbyn y 25ain o'r mis a bydd y rhifyn yn ymddangos ar y 10fed o'r mis canlynol.**
**[Does dim rhifyn ym mis Awst na mis Ionawr.]**



## HYSBYSEBION

Mae'r Dinesydd yn awyddus i gael cymorth rhywun i fod yn gyfrifol am hysbysebion.
Os hoffech ein helpu, byddai Bryan James yn falch o gael sgwrs â chi - 029 20 566731 neu cysylltwch ar db.james@ntlworld.com
Gellir trefnu comisiwn.

# The football and rugby team nicknames of Wales, Richard E. Huws (2013).

**ISBN: 978-1-907730-24-5. (122 tt).**

Pwy yw'r *Albies, y Beganifs, y Brain, y Chocolates, yr Eosiaid, y Mulod, y Penwaig a'r Piod* a sut y cawsant eu henwau? Beth yw'r stori y tu ôl i ffugenwau mwy cyfarwydd fel yr *Adar Gleision, yr Hen Aur, y Jacs, y Robiniaid a'r Sgarlets?*




Mae ffugenwau wedi bod yn rhan o ddiwylliant pêl-droed a rygbi ers Oes Fictoria, ond hyd yn hyn ni wnaethpwyd astudiaeth fanwl ohonynt. Mae'r llyfr hwn, sy'n cynnwys rhai cannoedd o enwau, yn cynnwys fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r ffugenwau, ac yn ceisio egluro eu tarddiad. Defnyddiwyd ffynonellau printiedig ac electronig wrth baratoi'r gwaith (yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol modern), ynghyd â chyfweliadau neu ohebiaeth â swyddogion clybiau ledled Cymru.

Mae'r awdur yn dod yn wreiddiol o Gaerfyrddin a bu'n gweithio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth am yn agos i ddeugain mlynedd. Ymddeolodd o'i swydd fel Pennaeth Gwasanaethau i Ddarllenwyr yn 2008. Ers degawd mae'n byw ym mhentref Bont-goch, Ceredigion. Mae wedi ymddiddori mewn hanes chwaraeon ac wedi cyhoeddi nifer o lyfrau ar y pwnc yn cynnwys *The football and rugby playing fields of Wales* (2009), a *Caneris melyn Trefeurig* (2010). Mae'n gefnogwr brwd o'r Elyrch.

Pris y gyfrol yw £7.95 a bydd ar gael yn y siopau ym mis Ebrill, neu gellir archebu copi yn uniongyrchol a phost-rhad o'r cyhoeddwr:

**Paul Watkins Publishing**

1 High Street, Donington, Lincolnshire PE11 4TA

Am fanylion pellach cysyllter â: member@pwatkinspublishing.fsnet.co.uk / rehuws@aol.com

# MERCHED Y WAWR CAERDYDD

Mrs Rosina Davies a gyflwynodd Mrs Efa Gruffudd Jones i Ferched y Wawr Caerdydd ar y 9fed o Ebrill. Hi yw Prif Weithredwr cyntaf yr Urdd a bu yn y swydd ers 8 mlynedd. Mae'n cael y swydd yn ddiddorol lle mae'n cyfarfod â llawer o bobl ac yn cael llu o wahanol brofiadau. Yr un yw nod yr Urdd heddiw ag a fu yn ystod plentyndod llu o Ferched y Wawr ond bod ei adnoddau'n llawer mwy ac felly hefyd y gost. Dibynna ar amrywiol ffynonellau am ei incwm, hyd yn oed Ewrop. Parhau i dderbyn budd ohono a wna'r Gymraeg a'r di-Gymraeg.

Diolchwyd gan Mrs Bethan Williams.

# Camerata Wales yng Nghaerdydd

Yn Neuadd Dewi Sant am 7.30yh nos Iau, Mai 16eg cynhelir cyngerdd corawl gan Camerata Wales. Sefydlwyd y gerddorfa siambr gan Owain Arwel Hughes er mwyn creu *ensemble* o'r safon ryngwladol uchaf i Gymru a thrwy hynny gyfrannu at adeiledd addysgol, diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd y Dywysogaeth. Mae aelodau Camerata Wales yn cynnwys llawer o offerynwyr blaenllaw Cymreig, pob un ohonynt yn amlwg yn y sin gerddorfaol Brydeinig, ac o'r cychwyn cyntaf mae'r gerddorfa hon wedi cael adolygiadau rhagorol: "Sain gyfoethog, mawr, disgybledig gyda safonau o ansawdd 24-carat yn aml" a "Perfformiad bywiog ymhob ffordd".

Arddangosodd recordiad y gerddorfa o gerddoriaeth Brydeinig, oedd yn cynnwys darnau gan Elgar, Delius a Holst, ei hansawdd a'i gallu amryddawn, "Mae gallu Owain Arwel Hughes i bwysleisio manylion deinamig heb aberthu naturioldeb yn amlwg unwaith eto." (BBC Music Magazine). "Mae Owain Arwel Hughes yn perswadio cerddorion Camerata Wales i chwarae ag angerdd a sensitifrwydd." (International Record Review).

Y rhaglen y tro hwn fydd perfformiad o Requiem Fauré yn ei chyfanrwydd ynghyd â chlasuron corawl eraill. Y côr fydd Cantorion Ardwyn a Chôr Polyffonig Caerdydd.

Dewch yn llu i glywed y gerddorfa hon yn fyw.

# CHWARAEON

## Nos Fawrth, 16 Ebrill 2013: Diwrnod euraid i'r Goldens yn Stadiwm Dinas Caerdydd

Daeth diwrnod mwyaf arbennig yn hanes clwb pêl-droed yr Adar Gleision wrth iddynt gael eu dyrchafu i Uwch Gynghrair Lloegr; 53 mlynedd i'r diwrnod ers iddynt gael eu dyrchafu i brif gynghrair Lloegr yn 1960. Roedd y stadiwm dan ei sang o gefnogwyr yn lliwiau coch (a glas!) y clwb. Roedd dagrau yn llygaid llawer; dynion, merched, plant, stiwardiaid. Pawb yn gweiddi, yn neidio ac yn cefnogi Dinas Caerdydd i'r carn. Roedd pawb wedi anghofio digwyddiadau deuddeg mis yn ôl pan ddatgelwyd y byddai lliwiau traddodiadol y tîm yn newid i goch; a hynny yn gadael ambell i gefnogwr brwd yn meddwl sut gallai'r clwb symud ymlaen o'r fath newid.

Penderfyniad munud olaf oedd hi i fynd i'r gêm nos Fawrth ond roeddwn i mor falch o fod yn rhan o foment hanesyddol i fyd pêl-droed Cymru; yn enwedig o gofio



bod Dad wedi mynychu'r gêm 53 mlynedd ynghynt pan drechodd Caerdydd glwb pêl-droed Aston Villa. Fel y rhan fwyaf o'r cefnogwyr, rhedais i ar y cae i longyfarch y bechgyn, a chymerodd lawer o amser i'r stiwardiaid glirio'r cae er mwyn i'r chwaraewyr ddod yn ôl allan. Roedd yr awyrgylch yn arbennig; un na fyddaf yn ei anghofio am amser hir. Llongyfarchiadau mawr i glwb pêl-droed Dinas Caerdydd!!!

***Siân Golden***







## Rhys yn rhedeg Marathon Paris - 2013

Rhedais Farathon Paris ar y 7fed o Ebrill (ar fy mhenblwydd yn 30 oed!).

Rwyf wedi penderfynu codi arian i "Pedal Power" a "Crohns & Colitis UK".

Dechreuais weithio'n wirfoddol dros Pedal Power ar ddechrau'r flwyddyn, a gweld a'm llygaid fy hun effaith bositif y gwaith a wneir yno ar y rhai sy'n defnyddio'r ganolfan, sef rhoi cyfle i bawb seiclo. Maent hefyd yn codi arian ar gyfer sied feiciau newydd, felly gobeithio bydd eich cyfraniadau yn help i wneud hyn.



*Rhys yn rhedeg ym Marathon Paris*

Rwyf hefyd yn codi arian ar gyfer Crohns & Colitis UK. Wedi dioddef o'r cyflwr am y rhan fwyaf o'm hugeiniau rwy'n gwybod faint o boen yn y pen-ôl y gall fod (ar adegau yn llythrennol!) Mae'r cyflwr yn golygu fy mod wedi colli'r colon, felly roedd yr her o gwblhau marathon yn gymhelliad ychwanegol - er mwyn dangos nad yw'r cyfnodau gwael o wendid yn eich rhwystro rhag llwyddo mewn camp sydd angen dycnwch corfforol, fel rhedeg 26 milltir.

Dysgais yn ogystal y gallaf reoli fy nghyflwr drwy ymarfer yn gyson. Gobeithio y bydd yr arian a godir ar gyfer ymchwil o gymorth i mi ac eraill yn y dyfodol.

Mae cyfrannu drwy "Just Giving" yn syml, yn gyflym ac yn gwbl ddiogel. Felly gobeithiaf y byddwch cystal â mynd i'r wefan [Enw eich ffrind > Rhys Jones - Paris] a chyfrannu.